Chartered Institute of Environmental Health

Rhagair i’r Strategaeth i Wella Iechyd a Diogelwch yng Nghymru

Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn croesawu ac yn cymeradwyo’r Strategaeth i Wella Iechyd a Diogelwch yng Nghymru.

Mae’r Sefydliad Siartredig yn cydnabod bod nifer yr achosion o salwch sy’n gysylltiedig â gwaith a nifer y damweiniau ac anafiadau a geir oherwydd gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yng Nghymru yn annerbyniol o uchel. Er mwyn darparu iechyd a diogelwch yn effeithiol yng Nghymru mae angen gwaith partneriaeth sy’n canolbwyntio ar flaenoriaethau, risg a pherfformiad gwael er mwyn cyflwyno canlyniadau cynaliadwy a diriaethol.

Cred y Sefydliad Siartredig y bydd y Strategaeth yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio ac yn chwalu rhwystrau rhag cyflwyno swyddogaethau rheoliadol iechyd a diogelwch yn effeithiol ar gyfer awdurdodau lleol a’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Mae’r Strategaeth hefyd yn cefnogi nifer o’r rhaglenni eraill sy’n ymwneud ag iechyd y cyhoedd a gyflwynwyd mor effeithiol yng Nghymru fel Her Iechyd Cymru, Rhagoriaeth Cymru a rhaglen *Fit 3* y Comisiwn Iechyd a Diogelwch.

Ar ran y Sefydliad Siartredig dymunaf bob llwyddiant wrth roi’r Strategaeth ar waith.

Alan Higgins

Llywydd, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd.